Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAWIAU

# Cynllun Troi’n Organig: canllawiau

Yn esbonio'r Cynllun Troi'n Organig a'r gofynion cymhwysedd.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 15 Gorffennaf 2022

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 15 Gorffennaf 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-troin-organig-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Cefnogi'r economi wledig a'r newid i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Adran A – Cyflwyniad

Adran B: Y Cynllun Troi'n Organig – Cymhwysedd

Adran C – Tir o dan Gynlluniau Eraill

Adran D – Ymgynghoriadau a Chaniatadau

Adran E – Gwneud cais i'r Cynllun Troi'n Organig

Adran F – Amodau'r Grant

Adran G – Taliadau

Adran H – Trosglwyddo neu Werthu Tir o dan Gontract

Adran I – Newidiadau i Reolau'r Cynllun

Adran J - Rheoliadau, Monitro a Chadw Cofnodion

Adran K - Y Drefn Apelio a Chwyno

Adran L – Hysbysiad Preifatrwydd: Grantiau Llywodraeth Cymru

Adran M – Gofynion Cyfreithiol

Adran N – Cysylltiadau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-troin-organig-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Atodiad 1: Codau Cnydau Cymwys ac Anghymwys ar gyfer y Cynllun Troi'n Organig

## Atodiad 2 – Haenau sgorio amcanion y Cynllun Troi'n Organig

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-troin-organig-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Cefnogi'r economi wledig a'r newid i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi ein hymrwymiadau i barhau i gefnogi ffermwyr i gynhyrchu bwyd mewn ffordd gynaliadwy, gan gymryd camau hefyd i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a helpu i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Darperir cymorth ariannol i ffermwyr, rheolwyr tir a sectorau gwledig cysylltiedig dros y tair blynedd nesaf drwy fframwaith cymorth hyblyg, ac mae cynlluniau – gan gynnwys y Cynllun Troi'n Organig – yn cyfrannu at y themâu canlynol:

- Rheoli tir ar lefel fferm
- Gwelliannau amgylcheddol ar ffermydd
- Effeithlonrwydd ac arallgyfeirio ar ffermydd
- Rheoli tir ar lefel tirwedd
- Coetiroedd a choedwigaeth
- Cadwyni cyflenwi bwyd a ffermio

Nod y fframwaith yw cefnogi camau gweithredu sy'n ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd sydd ar gael dros y tair blynedd nesaf, a llywio'r gwaith parhaus o ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy – cynllun a fydd yn gwobrwyo ffermwyr am y gwaith maent yn ei wneud ar hyn o bryd i leihau eu hôl troed carbon, gwella'r amgylchedd a chynhyrchu bwyd mewn ffordd gynaliadwy.

Mae rhagor o wybodaeth am y themâu a'r cynlluniau sy'n cael eu datblygu ar gael yn: **Rhwydwaith Gwledig Cymru** (ar Busnes Cymru).

# Adran A – Cyflwyniad

Mae'r Nodiadau Canllaw hyn yn esbonio'r Cynllun Troi'n Organig. Darllenwch

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-troin-organig-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

nhw'n ofalus. Os ydych yn credu wedyn y gallai eich cynlluniau buddsoddi fod yn gymwys ar gyfer cymorth o dan y cynllun hwn, a'ch bod am wneud cais, gweler 'Sut i Wneud Cais' yn Adran E a'r llyfryn **Sut i Lenwi.**

Bydd y cyfnod ymgeisio yn agor ar 18 Gorffennaf 2022 ac yn cau ar 26 Awst 2022.

Y dyraniad cyllideb dangosol ar gyfer y cyfnod ymgeisio hwn yw £5 miliwn dros ddwy flynedd galendr, sef 2023 a 2024.

Mae'r Cynllun Troi'n Organig yn gynllun cymorth sy'n seiliedig ar arwynebedd. Mae ar gael i gynhyrchwyr amaethyddol presennol ledled Cymru sy'n dymuno newid o gynhyrchu confensiynol i gynhyrchu organig. Drwy gefnogi ffermwyr yn ystod y cyfnod pontio o ddwy flynedd, wrth iddynt droi'n organig, nod y cynllun yw darparu cymorth i sicrhau manteision cadarnhaol o ran rheoli tir mewn ffordd sydd o fudd i'r amgylchedd. Mae'r Cynllun Troi'n Organig yn gontract pum mlynedd a ariennir am y ddwy flynedd gyntaf.

Bydd y Cynllun Troi'n Organig yn cyfrannu at fynd i'r afael â'r nodau cyffredinol isod:

- Lleihau allyriadau carbon a nwyon tŷ gwydr.
- Gwneud busnesau fferm yn fwy cadarn drwy addasu i newid yn yr hinsawdd.
- Gwella adnoddau dŵr er mwyn gwella ansawdd dŵr a lleihau’r perygl o lifogydd.
- Cyfrannu at wneud ffermydd a’r gymuned wledig ehangach yn fwy economaidd gynaliadwy.
- Diogelu a gwella'r dirwedd naturiol a'r amgylchedd hanesyddol.
- Datblygu a gwella bioamrywiaeth frodorol Cymru.

Mae busnesau fferm yn cael eu dewis ar gyfer y Cynllun Troi'n Organig yn dilyn cyflwyno datganiad o ddiddordeb i Lywodraeth Cymru. Mae'r datganiad yn cael ei sgorio ar ei allu i gyfrannu at gyflawni nodau'r Cynllun Troi'n Organig. Y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-troin-organig-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

datganiadau sy'n gallu gwneud y cyfraniad mwyaf at amcanion y cynllun a fydd yn cael y sgôr uchaf. **Gweler Adran E (Dethol)**

Darllenwch y Llyfryn Rheolau hwn ynghyd â'r canllawiau ar y Cynllun Troi'n Organig cyn cyflwyno datganiad o ddiddordeb.

Bydd unrhyw newidiadau'n cael eu cyhoeddi ar **wefan Llywodraeth Cymru**, GWLAD ar-lein a, lle bo angen, byddwn yn cysylltu â chi'n uniongyrchol.

# Adran B: Y Cynllun Troi'n Organig – Cymhwysedd

**Rydych yn gymwys i wneud cais os ydych yn bodloni'r meini prawf isod**

- Rydych wedi'ch cofrestru gyda Llywodraeth Cymru ac wedi cael Cyfeirnod Cwsmer (CRN). I gael canllawiau ar sut i gofrestru, ewch i wefan Llywodraeth Cymru neu ffoniwch Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW ar 0300 062 5004
- Rydych yn gynhyrchydd cynradd cynhyrchion amaethyddol
- Mae gennych dri hectar o dir amaethyddol cymwys yng Nghymru sydd wedi'i gofrestru gydag RPW, neu
- Rydych yn gallu dangos mwy na 550 o oriau llafur safonol

Byddwn yn gwirio a oes gennych hawliad cymwys o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol i gadarnhau a ydych yn gynhyrchydd cynradd cynhyrchion amaethyddol a bod gennych dri hectar o dir amaethyddol cymwys yng Nghymru.

Os nad ydych wedi cyflwyno cais i Gynllun y Taliad Sylfaenol, bydd rhaid ichi gyflwyno tystiolaeth ddogfennol gyda'ch datganiad o ddiddordeb i gadarnhau eich bod yn gynhyrchydd cynradd cynhyrchion amaethyddol a'ch bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd naill ai ar sail tri hectar o dir neu ar sail 550 o

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-troin-organig-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

oriau llafur safonol.

Mae cynhyrchwyr cynradd cynhyrchion amaethyddol yn cynnwys y sectorau ffermio canlynol:

- cnydau âr
- eidion
- llaeth
- geifr
- garddwriaeth
- moch
- dofednod
- defaid
- cadw gwenyn

Rhaid i'r holl dir sy'n cael ei gynnwys mewn contract o dan y Cynllun Troi'n Organig gael ei ardystio'n barhaus gan Gorff Rheoli Organig am bum mlynedd y contract, gan ddechrau ar 1 Ionawr 2023.

Caiff cynhyrchwyr organig presennol wneud cais ar gyfer tir nad yw wedi'i ardystio'n organig ar hyn o bryd neu nad yw'n cael ei droi'n organig ar hyn o bryd.

**Nid ydych yn gymwys:**

- os ydych yn gwsmer sy'n cadw ceffylau (gan gynnwys pori ceffylau)
- os ydych yn gwsmer coedwigaeth (gan gynnwys pobl sy'n berchen ar goetir yn unig)
- os ydych yn grŵp o ffermwyr (gan gynnwys Cymdeithasau Cynhyrchwyr)

Fodd bynnag, os yw dau ddaliad amaethyddol neu fwy'n cael eu rheoli fel uned unigol neu fod un person yn berchen arnynt neu eu bod i ryw raddau'n cael eu rheoli ar y cyd, a bod ganddynt gyfrifon ariannol cyffredin, da byw cyffredin,

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-troin-organig-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

peiriannau a/neu storfeydd bwydo cyffredin, byddant yn cael eu hystyried yn un busnes.

## Tir Cymwys

Rhaid ichi nodi'r holl dir y mae gennych reolaeth lwyr drosto, nad yw eisoes wedi'i gofrestru'n organig, yn eich datganiad o ddiddordeb. Os cynigir contract ichi, a gwelir yn nes ymlaen na wnaethoch gynnwys eich holl dir cymwys, mae'n bosibl y bydd eich contract yn cael ei ganslo a gellir adennill unrhyw daliadau a wnaed, gan gynnwys llog.

I fod yn gymwys i dderbyn taliadau trosi am ddwy flynedd, rhaid bod parsel tir sy'n cael ei gynnwys mewn contract o dan y Cynllun Troi'n Organig wedi dechrau troi'n organig ar ôl i'r contract o dan y Cynllun Troi'n Organig gael ei gynnig, a chyn 1 Ionawr 2023.

Mae angen i dir fod wedi'i droi'n organig am o leiaf ddwy flynedd i fod yn gymwys.

Dim ond os gallwch warantu y bydd gennych reolaeth barhaus am bum mlynedd y contract o dan y Cynllun Troi'n Organig y bydd tir a rentir yn gymwys.

Fel arfer gall y canlynol fodloni meini prawf rheolaeth lwyr:

- Perchennog-feddiannydd y tir
- Tenant sydd â Thenantiaeth Busnes Fferm neu denantiaeth o dan Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 neu Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986
- Trwyddedwr

Dim ond parseli cae cyfan sy'n gymwys ar gyfer contract o dan y Cynllun Troi'n Organig.

Rhaid i bob parsel tir fod yng Nghymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-troin-organig-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Bydd Tir Comin sy'n cael ei bori lle mai chi yw'r unig borwr cofrestredig yn gymwys i gael ei ystyried ar gyfer contract o dan y Cynllun Troi'n Organig. Rhaid i'r parseli hyn fod wedi'u cofrestru ar system adnabod parseli caeau RPW.

## Codau Cnydau Cymwys

Rhestrir codau cnydau cymwys o dan eu Dosbarthiad Gorchudd Tir yn Atodiad **1:Tabl 1** o'r canllawiau hyn.

Bydd codau cnydau a restrir o dan y golofn Dosbarthiad Gorchudd Tir yn Atodiad 1: Tabl 1 sy'n cael eu datgan ar Ffurflen Cais Sengl 2022 yn gymwys ar gyfer y taliadau canlynol:

**Cyfraddau talu**

| Cyfradd Dalu | Disgrifiad | Dosbarthiad Gorchudd Tir |
|---|---|---|
| 1 | Tir cylchdro | Cylchdro |
| 2 | Cnydau parhaol / glaswelltir | Glaswellt parhaol / cnydau parhaol |
| 3 | Glaswelltir parhaol a thros dro gyda menter laeth | Glaswellt parhaol<br><br>Glaswellt dros dro |
| 4 | Tir heb ei amgáu | Glaswellt parhaol |

Os nad ydych wedi datgan rhan o'ch tir, neu'r cyfan, ar unrhyw Ffurflen Cais Sengl 2022, bydd yn ofynnol ichi gyflwyno'r codau cnydau ynghyd ag unrhyw

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-troin-organig-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

dystiolaeth ddogfennol fel cofnodion cnydio, derbynebau, anfonebau ac ati.

## Tir Anghymwys

Tir sydd eisoes wedi'i ardystio'n organig.

Tir sydd eisoes yn cael ei droi'n organig cyn i gontract gael ei gynnig o dan y Cynllun Troi'n Organig.

Rhannau o barseli tir (Dim ond parseli tir cyfan y gellir eu cynnwys yn y Cynllun Troi'n Organig.)

Ni chewch ddefnyddio'r Cynllun Troi'n Organig i ail-droi tir yn organig os ydych wedi derbyn cymorth yn y gorffennol i droi'r tir hwnnw'n organig. Os ydych yn berchen newydd ar dir sydd wedi cael ei droi'n organig yn y gorffennol, ac wedyn ei droi yn ôl i dir ffermio confensiynol gan fusnes ffermio arall, mae'n bosibl y byddwch yn cael troi'r tir yn ôl i dir ffermio organig unwaith eto gan ddefnyddio cymorth gan y Cynllun Troi'n Organig.

Tir comin lle mae nifer o borwyr cofrestredig ar y comin.

Rhestrir nodweddion anghymwys parhaol yn **Atodiad 1:Tabl 2** o'r canllawiau hyn.

### Tir sy'n cael ei ddefnyddio i gynnal gweithgareddau chwaraeon a/neu hamdden

Ystyrir eich bod yn cynnal maes chwarae neu hamdden parhaol os yw unrhyw rai o'r canlynol yn berthnasol:

- Mae'r tir wedi cael ei neilltuo ac yn cael ei gadw gydol y flwyddyn i gynnal chwaraeon neu weithgareddau hamdden arno. Er enghraifft, cwrs golff, cae pêl-droed neu ménage (arena marchogaeth). Mae'r tir yn anghymwys hyd yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-troin-organig-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

oed os yw gweithgareddau amaeth yn cael ei gynnal arno os nad amaeth yw ei brif ddefnydd.
- Mae'r tir yn cynnwys un neu fwy o adeileddau parhaol sy'n cael eu defnyddio er mwyn i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon neu hamdden - neu adeileddau parhaol ar gyfer gwylwyr i'w gwneud yn fwy cyfforddus (er enghraifft, ystafelloedd newid, cawodydd neu doiledau, caffi, seddi i wylwyr neu gaban gwylio). Ni chynhwysir meysydd parcio.

Os bydd manège ar bwys ysgol farchogaeth neu stablau llog, ystyrir bod eisteddle neu gaban gwylio'r manège yn adeiledd parhaol, ond nid adeiladau'r stablau llog neu'r ysgol.

- Nid yw'r tir na'r cyfleusterau at ddefnydd personol yn unig

## Codau Cnydau Anghymwys

Rhestrir codau cnydau anghymwys ar gyfer taliadau'r Cynllun Troi'n Organig yn **Atodiad 1:Tabl 2** o'r canllawiau hyn.

## Y Cyllid Sydd ar Gael

Mae'r Cynllun Troi'n Organig yn gontract pum mlynedd, a fydd yn rhoi cymorth i drosi tir cymwys i gynhyrchu organig ac yn cyfrannu at gost ardystio yn ystod dwy flynedd gyntaf y contract yn unig. Un o amodau'r taliadau hyn yw bod rhaid ichi gynnal ardystiad organig parhaus am y tair blynedd sy'n weddill o'r contract, wedi i'r tir gael ei drosi yn llawn ar ôl y ddwy flynedd gyntaf.

## Cyfraddau'r Taliadau

Bydd y cyfraddau talu yn seiliedig ar y defnydd tir a gyflwynwyd ar eich SAF

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-troin-organig-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

2022. Os nad ydych wedi datgan rhan o'ch tir neu'r cyfan ar unrhyw Ffurflen Cais Sengl 2022, bydd y cyfraddau talu yn seiliedig ar y codau cnydau wedi'u cadarnhau a gyflwynir gennych ynghyd â'r dystiolaeth berthnasol.

**Tabl cyfraddau**

| Cyfradd Dalu | Disgrifiad | Taliad |
|---|---|---|
| 1 | Tir cylchdro | **£202/hectar** |
| 2 | Cnydau parhaol / glaswelltir | **£101/hectar** |
| 3 | Glaswelltir parhaol a thros dro gyda menter laeth | **£345/hectar** |
| 4 | Tir heb ei amgáu | **£12.60/hectar** |

## Diffinio'r Cyfraddau Talu

### Cyfradd Dalu 1

**Tir cylchdro:**

Tir sydd o fewn cylchdro fel tir âr, glaswelltir o fewn cylchdro âr, glaswelltir dros dro neu gnydau garddwriaethol o fewn cylchdro, fel bresych, tatws.

Bydd y defnydd tir yn cael ei nodi ar sail cyflwyniadau SAF 2022.

- Tir âr – codau amrywiol
- Glaswellt dros dro – GR1

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-troin-organig-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Cnydau garddwriaethol o fewn cylchdro – amryw godau.

## Cyfradd Dalu 2

**Cnydau parhaol / glaswelltir:**

Tir nad yw o fewn cylchdro cnydau, cnydau parhaol, glaswelltir parhaol.

Cnydau garddwriaethol parhaol, fel perllannau, ffrwythau meddal ac ati.

Bydd y defnydd tir yn cael ei nodi ar sail cyflwyniadau SAF 2022:

- Glaswelltir parhaol – GR2 a GR8
- Cnydau parhaol – amryw godau.

## Cyfradd Dalu 3

**Glaswelltir parhaol a thros dro gyda menter laeth:**

Tir nad yw o fewn cylchdro cnydau a glaswelltir parhaol. Glaswelltir dros dro.

Bydd y defnydd tir yn cael ei nodi ar sail cyflwyniadau SAF 2022.

- Glaswelltir parhaol – GR2 a GR8
- Glaswelltir dros dro – GR1

Dim ond i dir sy'n cefnogi menter laeth y bydd y gyfradd dalu hon yn berthnasol. (da byw godro a stoc odro ifanc)

Dim ond ar gyfer tir a ddefnyddir gan y fenter laeth y telir cyfradd dalu 3 i ffermydd sydd â nifer o fentrau, er enghraifft, uned laeth a defaid ucheldir. Bydd y taliad ar gyfer tir a ddefnyddir gan y fenter ddefaid yn cael ei dalu ar gyfradd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-troin-organig-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

dalu 1, 2 neu 4, yn dibynnu ar gyflwyniadau SAF 2022 neu godau cnydau wedi'u cadarnhau a gyflwynir, ynghyd â thystiolaeth.

Bydd arwynebedd y tir cymwys sy'n gymwys ar gyfer cyfradd dalu 3 yn cael ei gyfrifo ar sail nifer yr anifeiliaid godro ar y daliad gan ddefnyddio cyfrifiad uned da byw safonol. Bydd yr anifeiliaid sy'n cael eu datgan ar eich datganiad o ddiddordeb yn cael eu gwirio yn erbyn cofnodion EID Cymru a BCMS.

**Cyfrifiad**

| Da byw | Unedau Da Byw |
|---|---|
| Gwartheg godro (dros 24 mis) | 1 uned da byw |
| Gwartheg godro – stoc ifanc (6–24 mis) | 0.6 uned da byw |
| Geifr godro (6 mis neu'n hŷn | 0.16 uned da byw |
| Geifr godro – stoc ifanc (llai na 6 mis) | 0.04 uned da byw |
| Defaid godro (6 mis neu’r hŷn) | 0.11 uned da byw |
| Defaid godro – stoc ifanc (llai na 6 mis) | 0.04 uned da byw |

Bydd yr arwynebedd mwyaf sy'n derbyn cymorth ar gyfradd dalu 3 yn cael ei gyfrifo ar sail nifer yr anifeiliaid godro ar y daliad gan ddefnyddio uchafswm dwysedd stocio o ddwy uned da byw / Hectar.

Er enghraifft:

### Enghraifft 1:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-troin-organig-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Bydd gan fferm sydd â 100 o wartheg godro (dros 12 mis) a 60 o wartheg godro ifanc (6 – 12 mis) 136 o unedau da byw godro. Yn seiliedig ar ddefnyddio'r arwynebedd porthi ar gyfradd o ddwy uned da byw/hectar, yr arwynebedd mwyaf a fyddai'n derbyn cyfradd dalu 3 fyddai 68 ha. (136 wedi'i rannu â 2).

Byddai'r taliad am unrhyw laswelltir parhaol ychwanegol dros yr 68 hectar ar gyfradd dalu 2.

**Enghraifft 2:**

Bydd gan fferm â 120 o wartheg godro (dros 12 mis) ac 80 o wartheg godro ifanc (6–12 mis) 168 o unedau da byw godro. Yn seiliedig ar ddefnyddio'r arwynebedd porthiant ar gyfradd o ddwy uned da byw/hectar, yr arwynebedd mwyaf a fyddai'n derbyn cyfradd dalu 3 fyddai 84 hectar (168 wedi'i rannu â 2). Fodd bynnag, os mai dim ond 50 hectar o laswelltir parhaol sydd gan y fferm hon a bod gweddill yr arwynebedd sy'n cefnogi'r fenter laeth yn dir cylchdro, byddai cyfradd dalu 3 yn berthnasol i laswelltir dros dro hyd at yr uchafswm o 84 hectar.

Pe bai'r tir cylchdro yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cnydau ar wahân i laswelltir dros dro (e.e. indrawn neu gnwd cyfan) byddai'r tir hwn yn parhau i fod ar gyfradd dalu 1 a dim ond i'r 50 hectar o laswelltir parhaol y byddai cyfradd dalu 3 yn berthnasol.

**Enghraifft 3:**

Bydd gan fferm sydd â 200 o eifr godro (6 mis neu'n hŷn) a 50 o eifr godro ifanc (llai na 6 mis) 34 o unedau da byw godro. Yn seiliedig ar ddefnyddio'r arwynebedd porthiant ar gyfradd o ddwy uned da byw/ hectar, yr arwynebedd mwyaf a fyddai'n derbyn cyfradd dalu 3 fyddai 17 hectar (34 wedi'i rannu â 2).

Byddai'r taliad am unrhyw laswelltir parhaol ychwanegol dros yr 17 hectar ar gyfradd dalu 2.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-troin-organig-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Os yw nifer yr unedau da byw godro cymwys (yn seiliedig ar ddefnyddio'r arwynebedd porthiant ar gyfradd o ddwy uned da byw/hectar yn fwy na'r arwynebedd o laswelltir parhaol a glaswelltir dros dro sydd ar gael, ni fydd glaswelltir heb ei amgáu yn cael ei ystyried ar gyfer cyfradd dalu 3.

Nid yw tir a ddefnyddir i fagu anifeiliaid godro o dan gontract yn gymwys ar gyfer cyfradd dalu 3.

**Cyfradd Dalu 4**

Bydd y ffurflen gais yn nodi bod ucheldir heb ei amgáu a thir comin sy'n cael ei bori gan un porwr yn gymwys ar gyfer cyfradd dalu 4.  Bydd ffurflen gais ar-lein y Cynllun Troi'n Organig yn nodi bod ucheldir heb ei amgáu a thir comin sy'n cael ei bori gan un porwr yn gymwys ar gyfer cyfradd dalu 4.

- Ucheldir heb ei amgáu yw tir sy'n uwch na'r tir amaethyddol sydd wedi'i amgáu. Mae'n agored ei natur ac nid yw wedi cael ei wella at ddiben amaethyddol.
- Tir Comin sy'n cael ei bori lle mai chi yw'r unig borwr cofrestredig (Tir Comin ag Un Porwr).
- Caeau lle mae 50% neu fwy o'r holl gae yn orgors sy'n cael ei phori, gweundir arfordirol, gweundir yr iseldiroedd a morfa heli.

Wedi'i nodi drwy SAF 2022:

- Glaswellt parhaol – GR2 (heb ei amgáu ac uwchben llinell derfyn yr ucheldir)
- Morfeydd heli – SM2
- Grug – HE9
- Gweundiroedd sy'n cael eu pori – HE7

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-troin-organig-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Costau Ardystio Corff Rheoli Organig

Rhoddir cyfraniad at gostau ardystio o £500 y flwyddyn am y cyfnod trosi o ddwy flynedd.

Ni fydd ymgeiswyr sydd eisoes ag ardystiad organig ond sy'n gwneud cais i droi tir ychwanegol yn dir cynhyrchu organig yn gymwys i gael y cyfraniad o £500 at gostau ardystio.

**Arwynebedd y tir y gellir ei gynnwys yn y Cynllun Troi'n Organig a'r gyfradd dalu uchaf.**

Nid oes terfyn uchaf ar arwynebedd y tir y gellir ei gyflwyno ar gyfer y Cynllun Troi'n Organig.

Bydd uchafswm y taliad yn cael ei gapio yn ôl y canlynol:

**Tabl uchafswm y taliad**

| Arwynebedd | Taliad |
|---|---|
| 0 – 200 hectar o dir cymwys | 100% o'r gyfradd dalu. |
| 200 – 400 hectar o dir cymwys | 50% o'r gyfradd dalu |
| Dros 400 hectar | 10% o'r gyfradd dalu |

Wrth gyrraedd unrhyw drothwy talu, bydd y gyfradd dalu uchaf yn cael ei hystyried gyntaf.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-troin-organig-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Er enghraifft, mae ymgeisydd yn cyflwyno datganiad o ddiddordeb ar gyfer 300 hectar, sy'n cynnwys 50 hectar o dir cylchdro, 200 hectar o laswelltir parhaol a 100 hectar o dir heb ei amgáu.

**Bydd y contract yn cynnig:**

| Arwynebedd | Taliad |
|---|---|
| 50 hectar ar gyfradd dalu 1 (£202/hectar) | £10,100 |
| 150 hectar ar gyfradd dalu 2 (£101/hectar) | £15,150 |
| 50 hectar ar 50% o gyfradd dalu 1 (£101) | £5,050 |
| 100 hectar ar 50% o gyfradd dalu 4 (£6.30) | £630 |
| **Cyfanswm y contract a gynigir** | **£30,930** |

Pan fydd y gyfradd dalu wedi cael ei chyfrifol, bydd yn aros yr un fath am ddwy flynedd y contract.

Pan fydd nodweddion anghymwys parhaol yn cael eu cyflwyno neu eu nodi ar barseli mewn contract o dan y Cynllun Troi'n Organig (e.e. coetir neu adeiladau) bydd yr arwynebedd hwnnw'n dod yn anghymwys ar gyfer taliad ac yn cael ei dynnu o'r contract. Oni bai bod unrhyw newid i ddefnydd tir yn cynnig manteision amgylcheddol ychwanegol, cawn ni adennill unrhyw daliadau a wnaed yn flaenorol.

Os bydd y defnydd tir yn newid yn ystod 2023, (o gnwd parhaol i gnwd cylchdro, neu i'r gwrthwyneb) ni fydd hyn yn effeithio ar daliadau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-troin-organig-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Gofynion Allweddol

Er mwyn bodloni rhwymedigaethau'r Cynllun Troi'n Organig, rhaid i'r holl dir sydd o dan y contract gael ei ardystio gan Gorff Rheoli Organig yn ddi-dor am hyd y Contract, gan ddechrau ar 1 Ionawr 2023. Rhaid cyflwyno'r dystysgrif ddiweddaraf gan y Corff Rheoli Organig a'r Rhestrau Tir diweddaraf erbyn 31 Rhagfyr 2023.

Ni wneir unrhyw daliadau oni bai bod pob tystysgrif berthnasol wedi cael chyflwyno.

Os bydd eich cais yn cael ei ddewis a'ch bod yn derbyn y contract, bydd gofyn ichi gyflwyno copi o'ch cais i Gorff Rheoli Organig, gan gynnwys cynllun troi'n organig a baratowyd fel rhan o'r cais, os yw'n berthnasol.

Dylid cyflwyno'r dogfennau pan fyddwch yn cyflwyno eich cais fel rhan o SAF 2023.

I fod yn gymwys ar gyfer cyfradd dalu 3, ar ôl derbyn contract o dan y Cynllun Troi'n Organig, bydd gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus sydd â menter laeth gyflwyno'r canlynol:

- Llythyr o fwriad, gan brynwr / prosesydd llaeth yn datgan, mewn egwyddor, y bydd yn prynu'r llaeth organig ar ôl i'r tir gael ei droi at gynhyrchu organig.
- I'r rhai sy'n prosesu llaeth ar y daliad, bydd angen iddynt gadarnhau ac esbonio sut maent yn bwriadu newid eu dulliau prosesu a'u cynhyrchion mewn ymateb i'r llaeth organig sydd ar gael.

Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr llwyddiannus sydd â menter laeth i barhau i gynhyrchu llaeth am gyfnod y contract a chyflwyno tystiolaeth o hyn fel rhan o'r hawliad blynyddol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-troin-organig-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Lle na chaiff llaeth ei gynhyrchu am y 5 mlynedd, gellid adennill rhywfaint o’r grant, neu'r grant cyfan.

Pan na roddir digon o dystiolaeth i ddangos bod gofynion y cynllun wedi cael eu bodloni, gellir atal y taliad, gwrthod yr hawliad ac adennill unrhyw daliadau blaenorol.

# Adran C – Tir o dan Gynlluniau Eraill

Isod mae manylion y berthynas rhwng y Cynllun Troi’n Organig a thir o dan gynlluniau eraill:

## Glastir Uwch (annibynnol ac ar y cyd â Glastir Sylfaenol)

Gellir cynnwys tir sydd wedi'i gynnwys yng nghontract Glastir Uwch yn y Cynllun Troi'n Organig.

## Glastir – Tir Comin

Nid yw tir sy'n dir comin cofrestredig yn gymwys ar gyfer y Cynllun Troi'n Organig, **ac eithrio tir comin unig borwr sydd wedi'i gofrestru yn system adnabod parseli tir RPW**.

Mae tir a ddefnyddir fel tir comin ond nad yw’n dir comin cofrestredig yn gymwys ar gyfer y Cynllun Troi’n Organig. Ond os oes gennych gontract Glastir – Tir Comin eisoes ar dir o'r fath, bydd cyfyngiadau yn berthnasol. Ni chewch ddatgan diddordeb ar gyfer gwaith fydd yn newid amodau rheoli contract Glastir – Tir Comin sydd gennych eisoes.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-troin-organig-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Glastir Organig

Ni ellir cynnwys tir sydd wedi'i gynnwys yng nghontract Glastir Organig yn y Cynllun Troi'n Organig.

## Cynlluniau Coetir Glastir a Chynlluniau Coetir Olynol

Ni fydd parseli tir o dan Gynllun Creu Coetir Glastir a Chynllun Adfer Coetir Glastir, nac unrhyw gynlluniau olynol, yn gymwys ar gyfer y Cynllun Troi'n Organig.

Gellir defnyddio parseli'r Cynllun Troi'n Organig i wneud cais i gynlluniau creu coetir a gefnogir gan Lywodraeth Cymru.  Os bydd eich cais am gymorth o dan y cynllun Creu Coetir yn llwyddiannus, ni fydd unrhyw daliadau eraill yn cael eu gwneud gan y Cynllun Troi'n Organig ar gyfer yr arwynebedd tir wedi'i blannu.

## Grantiau Bach Glastir a  Grantiau Bach – Yr Amgylchedd

Gellir cynnwys tir mewn contract o dan y Cynllun Troi'n Organig yng nghynlluniau Grantiau Bach Glastir neu Grantiau Bach – Yr Amgylchedd. Os bydd tir yn dod yn anghymwys h.y. os nad yw bellach yn laswelltir parhaol, cnydau parhaol neu dir cylchdro ar ôl cwblhau prosiect Grantiau Bach Glastir neu Grantiau Bach – Yr Amgylchedd, bydd cymorth gan y Cynllun Troi'n Organig yn cael ei ganslo ar y tir hwnnw a gellir adennill unrhyw daliadau blaenorol.

## Cyllido Dwbl

Ni ddylech wneud cais am y Cynllun Troi'n Organig os ydych yn derbyn cyllid at

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-troin-organig-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

yr un diben gan unrhyw ffynhonnell arall.  Os cawsoch gontract o dan Glastir Organig, ni fyddwch yn gymwys i gael cyllid. Byddai hyn yn cael ei ystyried yn gyllido dwbl ar gyfer yr un tir.

Os gwelir eich bod yn derbyn cyllid gan ffynhonnell arall ar gyfer gwaith o dan y Cynllun Troi'n Organig, gallai hyn arwain at gosbau ariannol ac adennill taliadau eich contract o dan y Cynllun Troi'n Organig, a gallech gael eich gwahardd yn y dyfodol.

# Adran D – Ymgynghoriadau a Chaniatadau

Mae'n ofynnol sicrhau nad yw unrhyw weithrediadau a wneir i gyflawni amcanion y Cynllun Troi'n Organig yn torri rhwymedigaethau amgylcheddol o dan ddeddfwriaeth amgylcheddol arall, gan gynnwys Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop, nac yn niweidio unrhyw nodweddion neu ardaloedd tirwedd hanesyddol. Rhaid ichi gadw at amodau unrhyw ganiatâd a gewch gan yr awdurdod perthnasol.  Gall peidio â gwneud hynny arwain at eich erlyn.

Os na ellir cael caniatâd, rhaid peidio â chyflawni'r gwaith.

# Adran E – Gwneud cais i'r Cynllun Troi'n Organig

## RPW Ar-lein

Dim ond drwy gael mynediad at Daliadau Gwledig Cymru (RPW) y gallwch gyflwyno datganiad o ddiddordeb ar gyfer y Cynllun Troi'n Organig.  Os oes gennych Gyfeirnod Cwsmer (CRN) eisoes, dylech fod wedi cael llythyr gyda'ch Cod Actifadu arno fel y gallwch agor cyfrif. Os nad yw'r cyfeirnod hwn gennych, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 (Llun – Iau 8.30am

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-troin-organig-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

– 5.00pm, Gwener 8.30am – 4.30pm) a rhoi eich CRN i'r cysylltydd. Bydd Cod Actifadu newydd yn cael ei anfon atoch.

I gofrestru manylion eich busnes am y tro cyntaf, mae angen ichi gwblhau'r ffurflen gofrestru ar-lein. Cyfeiriwch at y **canllawiau ar sut i gofrestru** i gael rhagor o fanylion. Mae modd cwblhau'r rhan fwyaf o newidiadau i fanylion busnes ar-lein. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen hysbysu Llywodraeth Cymru am unrhyw newidiadau mawr. Cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid am ragor o wybodaeth.

Pan fyddwch wedi cofrestru, gallech gael mynediad i'ch cyfrif **RPW Ar-lein.** Mae'r cais i'r Cynllun Troi'n Organig ar gael o adran 'Ceisiadau a Hawliadau' eich cyfrif.

Os oes gennych asiant yn gweithio ar eich rhan, bydd angen iddo gofrestru fel asiant gydag RPW. Os nad ydych wedi gwneud hyn eto, dylech gwblhau copi ar-lein neu gopi caled o'r ffurflen Manylion Cwsmer Asiant / Undeb Amaeth (Cymru) ar unwaith. Mae'r ffurflen ar gael ar **wefan Llywodraeth Cymru.** Ar ôl derbyn y ffurflen, byddwn yn anfon Cyfeirnod Cwsmer Asiant a Chod Actifadu Ar-lein ar gyfer Taliadau Gwledig Cymru (RPW). Hefyd, bydd angen ichi gwblhau Ffurflen Rhoi Caniatâd i Asiant ar ôl cofrestru gyda RPW Ar-lein. Gweler ein **canllawiau ar sut i gofrestru**.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gofrestru gydag RPW Ar-lein neu am gwblhau eich datganiad o ddiddordeb, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004. Byddant yn gallu rhoi cyngor ichi a rhoi gwybod ichi ble gallwch fynd am gymorth digidol.

Mae rhagor o fanylion am Daliadau Gwledig Cymru Ar-lein ar gael ar **wefan Llywodraeth Cymru**

Ymatebwch i unrhyw ymholiadau gan Lywodraeth Cymru ynghylch eich datganiad o ddiddordeb ar gyfer y Cynllun Troi'n Organig yn brydlon. Gall methu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-troin-organig-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ag ymateb o fewn yr amser a roddir atal contract o dan y Cynllun Troi'n Organig rhag cael ei gynnig ichi.

Byddwn yn cyhoeddi uchafswm o ddau nodyn atgoffa ar gyfer datganiadau o ddiddordeb sy'n dal i fod yn y broses ddrafftio drwy eich cyfrif RPW Ar-lein cyn y dyddiad cau.

## Y Broses Ymgeisio

Mae dau gam i'r broses ymgeisio ar gyfer y Cynllun Troi'n Organig.

1. Dylid cyflwyno eich datganiad o ddiddordeb drwy RPW Ar-lein.
2. Ar ôl i'r cyfnod ar gyfer datgan diddordeb ddod i ben, bydd proses ddethol yn cael ei chynnal. Os cewch eich dewis, bydd contract yn cael ei gynnig ichi drwy eich cyfrif RPW Ar-lein.

## Cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb

Mae canllawiau ar sut i gyflwyno eich datganiad o ddiddordeb drwy RPW Ar-lein ar gael yma **Sut i Lenwi**

Bydd yr holl dir mae gennych reolaeth lwyr drosto am fwy na 365 diwrnod yn cael ei lenwi ymlaen llaw ar eich datganiad o ddiddordeb ar-lein. Bydd gofyn ichi ddewis pob parsel cae sy'n gymwys ar gyfer y Cynllun Troi'n Organig. Ni fyddwch yn gallu dileu unrhyw barseli cae o'ch cais. Rhaid ichi ddad-ddewis y parsel gan roi'r rheswm dros wneud hynny ar eich cais. Cewch hefyd ychwanegu rhagor o barseli cae at eich cais.

Dylai niferoedd y da byw rydych chi'n eu cofnodi ar eich cais gyfateb i'r niferoedd ar y daliad fel y'u cofnodir ar Wasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-troin-organig-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y datganiad o ddiddordeb wedi'i gwblhau'n gywir a bod y wybodaeth a roddir i gefnogi eich cais yn gywir.**

Rhaid cwblhau'r datganiad o ddiddordeb yn llawn a chyflwyno'r holl ddogfennau sydd eu hangen i gefnogi'r cais.

Byddwn yn cyhoeddi uchafswm o ddau nodyn atgoffa am geisiadau sy'n dal i fod yn y broses ddrafftio drwy eich cyfrif RPW Ar-lein cyn y dyddiad cau.

## Tynnu Datganiadau o Ddiddordeb yn ôl

Pan fyddwch wedi cyflwyno eich datganiad o ddiddordeb, ni allwch ei ddiwygio. Os bydd angen ichi newid unrhyw un o'r codau cnydau ar ôl cyflwyno eich datganiad o ddiddordeb, cewch dynnu eich datganiad o ddiddordeb gwreiddiol yn ôl ac ailgyflwyno un newydd gyda'r parseli tir cywir wedi'u dewis, ar yr amod nad yw'r cyfnod datgan diddordeb wedi cau.

Pan fyddwch wedi cyflwyno eich datganiad o ddiddordeb, cewch ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg. Gallwch dynnu eich datganiadau o ddiddordeb yn ôl drwy 'Fy Negeseuon' yn eich cyfrif RPW Ar-lein. Cewch wneud cais arall mewn unrhyw rowndiau yn y dyfodol, os bydd cyfnod ymgeisio arall yn agor.

## Sgorio a Dethol

Bydd y Cynllun Troi'n Organig yn ceisio dewis datganiadau o ddiddordeb sy'n cyflawni arferion rheoli tir sy'n arwain at y canlyniadau amgylcheddol gorau ac yn cyfrannu at nodau cyffredinol:

- Lleihau allyriadau carbon a nwyon tŷ gwydr.
- Gwneud busnesau fferm yn fwy cadarn drwy addasu i newid yn yr hinsawdd.
- Gwella adnoddau dŵr er mwyn gwella ansawdd dŵr a lleihau'r perygl o

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-troin-organig-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

lifogydd.
- Cyfrannu at wneud ffermydd a’r gymuned wledig ehangach yn fwy economaidd gynaliadwy.
- Diogelu a gwella'r dirwedd naturiol a'r amgylchedd hanesyddol.
- Datblygu a gwella bioamrywiaeth frodorol Cymru.

## Meini Prawf Sgorio

I gael eich ystyried ar gyfer cymorth o dan y Cynllun Troi'n Organig, rhaid cyflwyno datganiad o ddiddordeb i Lywodraeth Cymru. Bydd pob datganiad o ddiddordeb cymwys a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ystyried i'w ddewis.

Bydd y broses ddethol yn dadansoddi gallu pob datganiad o ddiddordeb i gyfrannu at amcanion amgylcheddol allweddol y Cynllun Troi'n Organig. Gwneir hyn drwy fesur y rhan o'r arwynebedd o dir sydd wedi'i gynnwys yn y datganiad â nifer o fapiau digidol, a elwir yn haenau System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS), lle maent yn bodoli, ledled Cymru. Mae'r haenau GIS hyn yn dangos yr ardaloedd gorau ar gyfer cyflawni amcanion penodol y Cynllun Troi'n Organig. Er enghraifft, gall arferion ffermio organig wella ansawdd dŵr a gwella safleoedd dynodedig, megis Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a, lle mae rhagor o flaenoriaeth i gyfrannu at yr amcanion hyn, bydd datganiadau o ddiddordeb mewn ardaloedd â blaenoriaeth uchel yn cael sgôr uwch na'r rhai mewn ardaloedd â blaenoriaeth isel.

Rhoddir sgôr i bob haen GIS, sy'n cael ei phennu gan flaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru. Wedyn mae'r datganiad yn cael ei asesu yn erbyn pob haen GIS. Rhoddir sgôr yn seiliedig ar yr arwynebedd sy'n cyfateb i'r haen a gyfrifir gan ddefnyddio'r fformiwla ganlynol:

Arwynebedd (hectarau) Haen yr Amcan Targed * x Pwysoliad y Target
-------------------------------------------------------------------------------- = Sgôr

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-troin-organig-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Arwynebedd (hectarau) y Datganiad o Ddiddordeb

*O fewn arwynebedd (hectarau) y datganiad o ddiddordeb

**Er enghraifft:**

Mae datganiad o ddiddordeb ar gyfer 90.24, y mae 65.64 hectar yn yr haen Afonydd Sensitif, yn cael pwysoli o 4 yr hectar. Mae cyfraniad yr haen at y cyfanswm sgôr ar gyfer y datganiad o ddiddordeb yn cael ei gyfrifo fel a ganlyn:

$$\frac{65.64 \times 4}{90.27} = 2.9$$

Mae'r haen Afonydd Sensitif felly yn cyfrannu 2.9 o bwyntiau at sgôr y datganiad o ddiddordeb.

Bydd y fformiwla hon yma yn cael ei defnyddio ar gyfer pob haen GIS y mae'r datganiad o ddiddordeb yn cyfateb iddi. Wedyn mae sgôr pob haen yn cael ei chyfuno i roi cyfanswm sgôr y datganiad o ddiddordeb. Bydd datganiad o ddiddordeb sy'n cyfateb i nifer uwch o haenau GIS sy'n addas ar gyfer bodloni amcanion y cynllun, yn benodol rhai ag iddynt flaenoriaeth uchel, yn cael sgôr uwch.

Wedyn mae cyfanswm y sgôr a roddwyd am yr haenau amcanion yn cael ei rannau ag arwynebedd y datganiad o ddiddordeb. Dyma'r sgôr derfynol a ddefnyddir i raddio'r holl ddatganiadau o ddiddordeb a dderbyniwyd.

Mae'r holl ddatganiadau o ddiddordeb yn cael eu graddio yn ôl eu sgôr derfynol, ac wedyn bydd y datganiadau â'r sgôr uchaf yn cael eu dewis a'u prosesu.

Mae tabl yn rhestru'r holl haenau amcanion a'r pwysoliad cysylltiedig yn Atodiad 2.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-troin-organig-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Os nad oes digon o gyllid ar gael i gynnig contract i bob ymgeisydd, bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio proses ddethol gystadleuol i benderfynu pa ymgeiswyr y cynigir contract iddynt. Pan fydd gan geisiadau'r un sgôr, ynghyd â'r un gwerth a'r un safle ar y trothwy cyllid sydd ar gael, mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i naill ai ddewis neu wrthod y ceisiadau hyn, yn dibynnu ar y gyllideb sydd ar gael.

Byddwch yn cael eich hysbysu a yw eich cais wedi bod yn llwyddiannus neu beidio ac am yr amcanion a nodwyd ar eich fferm a ddefnyddiwyd i gyfrifo eich sgôr.

## Cynnig Contract

Os cynigir contract ichi, rhaid ichi dderbyn neu wrthod y cynnig o fewn 30 diwrnod calendr i ddyddiad y cynnig.

Pan fydd contract wedi cael ei gynnig, ni chewch wneud unrhyw newidiadau.

Os nad ydych yn derbyn eich contract o fewn 30 diwrnod calendr, bydd y cynnig yn cael ei dynnu'n ôl.

Byddwn yn cyhoeddi nodyn atgoffa ichi drwy eich cyfrif RPW Ar-lein cyn y dyddiad cau a nodir yn eich llythyr.

Ar ôl derbyn y contract, er mwyn bod yn gymwys i hawlio a derbyn taliad bydd angen ichi ddarparu'r dystysgrif berthnasol gan y Corff Rheoli Organig a'r Rhestr Tir, a copi o’ch cais i’r Corff Rheoli Organig gan gynnwys cynllun troi’n organig a baratowyd fel rhan o’r cais, os yw’n berthnasol erbyn 31 Rhagfyr 2023.

Ni thelir cymorth o dan y Cynllun Troi'n Organig oni bai bod yr holl ddogfennau ategol wedi cael eu derbyn a'u gwirio i sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y cynllun.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-troin-organig-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Adran F – Amodau'r Grant

Mae'r Cynllun Troi'n Organig yn ddarostyngedig i amrediad o ddeddfwriaeth berthnasol (gweler Adran M). Rhaid i Lywodraeth Cymru a’r ymgeisydd/ derbynnydd weithredu yn unol â’r ddeddfwriaeth honno.

Mae contract o dan y Cynllun Troi'n Organig yn cael ei gynnig yn ddarostyngedig i delerau ac amodau, a fydd yn cael eu nodi yn llawn yn eich contract, gan gynnwys y rhai a nodir isod. **Gall methu bodloni telerau ac amodau’r contract arwain at ganslo eich contract a/neu adennill y symiau sydd eisoes wedi cael eu talu ichi, neu leihau cyfanswm y grant sy’n daladwy.**

## Amodau

Gwneir y dyfarniad yn seiliedig ar y datganiadau a wnaed gennych chi neu'ch cynrychiolwyr yn eich datganiad o ddiddordeb a'r ffurflen hawlio ac mewn unrhyw ohebiaeth a gafwyd wedi hynny. **Mae’n drosedd gwneud datganiadau anwir neu gamarweiniol.**

Mae unrhyw un sy’n gwneud datganiad ffug neu sy'n methu rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am newid perthnasol i’r wybodaeth a roddwyd yn y datganiadau o ddiddordeb hwn yn agored i gael ei erlyn. Gall rhoi datganiad ffug, anghywir neu anghyflawn neu beidio â rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am newid perthnasol i’r wybodaeth a roddwyd yn y datganiad o ddiddordeb hwn arwain at ddod â’r contract i ben a/neu adennill unrhyw daliadau.

Mae’n ofynnol i’r ymgeisydd ddarllen a deall rheolau a chanllawiau perthnasol y cynllun.

Mae’r manylion rydych wedi’u rhoi yn y datganiadau o ddiddordeb ac unrhyw

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-troin-organig-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ddogfennau ategol, hyd eithaf eich gwybod a’ch cred, yn wir, yn gywir ac yn gyflawn.

Rydych yn cydnabod na fydd Llywodraeth Cymru nac unrhyw gynghorydd a benodir gan Lywodraeth Cymru yn gyfrifol am unrhyw gyngor a roddir, gan gynnwys, heb gyfyngiad, unrhyw gyngor a roddir mewn perthynas â'r ceisiadau, a'ch bod yn llwyr gyfrifol am y penderfyniadau busnes a wneir.

Rhaid ichi ymrwymo i fodloni unrhyw rwymedigaethau statudol megis Iechyd a Diogelwch; cyflogaeth; hylendid; rheoli a diogelu'r amgylchedd; iechyd a lles anifeiliaid neu gnydau a fydd yn gymwys yn ystod cyfnod y prosiect hwn.

Efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ddiweddaru’r rheolau a’r amodau yn dilyn newidiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Rhaid ichi gytuno i gadw at unrhyw newidiadau ar ôl cael gwybod amdanynt gan Weinidogion Cymru.

Rhaid ichi gydymffurfio â’r holl gyfreithiau neu reoliadau domestig neu ryngwladol neu gyfarwyddebau swyddogol cymwys.

Rhaid ichi hysbysu Llywodraeth Cymru am unrhyw newidiadau i’r manylion a roddir yn adran Manylion yr Ymgeisydd ar y ffurflen.

Rhaid ichi roi mynediad i swyddogion Llywodraeth Cymru, neu ei hasiantiaid awdurdodedig priodol, archwilio tir a'r holl gofnodion a gwybodaeth berthnasol sydd eu hangen i gadarnhau eich bod yn gymwys a chywirdeb y wybodaeth a roddwyd wrth wneud y datganiad o ddiddordeb hwn.

Ni ddylech wneud gwaith cyn ymrwymo i'r Cynllun Troi'n Organig sy'n niweidio'r amgylchedd a rhaid deall y gallai gwneud hynny arwain at wrthod eich datganiad o ddiddordeb.

Ni ddylech fod wedi cynnwys tir sydd o dan gytundebau rheoli eraill neu sy’n

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-troin-organig-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

destun grant neu gais am grant arall, a allai arwain atoch yn derbyn cyllido dwbl

Rhaid ichi gynnal yswiriant digonol ar gyfer y risgiau a all godi mewn cysylltiad ag unrhyw eiddo neu unrhyw weithgaredd yr ymgymerir ag ef wrth gyflawni'r dibenion. Rydym yn cadw'r hawl i ofyn ichi gyflwyno tystiolaeth o'ch yswiriant.

Mae'n bosibl y bydd angen i Lywodraeth Cymru rannu gwybodaeth am eich datganiad o ddiddordeb ar gyfer y Cynllun Troi'n Organig â sefydliadau eraill, ac rydych yn cytuno inni ddatgelu neu rannu unrhyw wybodaeth angenrheidiol.

Gall Llywodraeth Cymru ofyn hefyd am wybodaeth amdanoch oddi wrth sefydliadau eraill, neu roi gwybodaeth amdanoch iddyn nhw er mwyn gwirio cywirdeb yr wybodaeth, er mwyn atal neu ganfod troseddau, ac er mwyn diogelu arian cyhoeddus. Mae'r sefydliadau eraill hynny'n cynnwys adrannau'r llywodraeth, awdurdodau lleol a chyrff eraill, fel sy'n briodol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ac yn datgelu gwybodaeth yn unol â'r ymrwymiadau a'r dyletswyddau sydd arni o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Mae'n bosibl y caiff gwybodaeth arall a roddir ei datgelu hefyd os caniateir hynny o dan y gyfraith.

# Adran G – Taliadau

## Hawliadau

